Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol
Cymru

18 Medi 2020

Annwyl Simon

**Bil Marchnad Fewnol y DU**

Rwy'n ysgrifennu ynglŷn â sut, ym marn Llywodraeth y DU, y caiff Confensiwn Sewel ei gymhwyso i Fil Marchnad Fewnol y DU.

Mae paragraffau 87-89 ac Atodiad A o'r Nodiadau Esboniadol i Fil Marchnad Fewnol y DU yn darparu bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer pob Rhan o'r Bil a nodir bod y cydsyniad hwn wedi cael ei geisio. O'r herwydd, byddem yn disgwyl na fyddai Llywodraeth y DU yn ceisio pasio'r Bil heb gydsyniad y Senedd.

I lywio ein hystyriaeth o'r Bil a'n hymchwiliad ehangach i'r newid yng nghyfansoddiad Cymru, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a ydych yn cyd-fynd â'r asesiad hwn ac yn cadarnhau na fydd y sefyllfa hon yn newid os bydd y Bil yn cadw'r un bwriad, fel y'i cyflwynwyd.

Rydym yn codi'r pwynt diwethaf oherwydd eich tystiolaeth inni ar **9 Mawrth**; yng nghyd-destun Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael), dywedasoch: "in this particular instance, 'not normal' emerged as the theme as it became more obvious that the LCM wouldn't get through this place, and indeed through the Scottish Parliament."

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Os nad ydych yn cytuno â’n hasesiad, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym pryd, ac ar ba sail, y bydd Llywodraeth y DU yn gallu rhoi gwybod a yw'r Bil, at ddibenion confensiwn Sewel, yn “normal” ai peidio.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS**
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Cc:
Y Gwir Anrhydeddus Alok Sharma AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Senedd Cymru
Bruce Crawford ASA, Cynullydd, Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban
Colin McGrath MLA, Cadeirydd Pwyllgor y Swyddfa Weithredol, Cynulliad Gogledd Iwerddon
Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Pwyllgor Materion Cymru, Tŷ'r Cyffredin
William Wragg AS, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, Tŷ'r Cyffredin
Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Taylor o Bolton, Cadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi